YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] ~~MAI~~, 1896. [RHIF 102

Mehefin

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

AMCAN MEWN BYWYD.

GAN MR. D. DELTA EVANS, LLUNDAIN.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

DYWED un awdwr fod purdeb ac hapusrwydd yn gyfystyr; ac felly, y mae yn anhebgorol bod o honom yn bur mewn trefn i gyrhaedd hapusrwydd. Y mae eisieu *mwy* o burdeb – purdeb mewn meddwl, purdeb mewn iaith, a phurdeb mewn gweithred. O! brysied yr amser pryd y gwelir dynion o ddifrif yn ymroddi yn gorff, enaid, ac yspryd, i argraffu yn ddwfn ar yr oes sydd yn codi yr angenrheidrwydd o fod yn *bur*, a'r ddyledswydd o benderfynu yn mhen y ffordd i ffurfio cymmeriadau glân a dihalog iddynt eu hunain, y rhai a ddaliant yn gadarn yn ngwyneb pob prawf. Brysied yr amser pan y gwelir ein harweinwyr crefyddol yn rhoddi mwy o bwys ar y dymunoldeb o blanu yn nghalon pob bachgen a geneth ieuanc ryw hedyn bywiol o awyddfryd i osod amcan o flaen eu bywyd, rhyw wrthddrych teilwng o'i ddal o flaen eu llygaid, i gadw eu golwg arno yn barhaus, ac i gyfeirio pob cam o'u gyrfa, a phob ysgogiad o'u hegni tuag ato. Os unwaith y ceir yr hedyn dymunol hwn yn nghraidd y galon, diwyllier ef yn ofalus, fel yr ymddadblygo nes dyfod yn rhan o'r ewyllys ei hunan; ac yna, os rhoddir chwareu teg iddo, efe a ymweithia allan, ac a ymflodeua yn mhrydferthwch yr ymarweddiad ac yn nysgleirdeb bywyd ymarferol y dyn ei hunan; oblegyd

Beth yw Purdeb? Gwisg ddilychwin, harddach fyrdd nâ'r lili wen,
Sydd a'i gwychder yn berffeithrwydd—esmwyth yw fel melfed len;
Canaid wisg preswylwyr Gwynfa—glanach nâ'r goleuni yw;
Ar ei orsedd wen dragwyddol, dyma'r wisg arddela Duw.

"Beth yw Purdeb? Afon loew, ddysglaer fel y grisial clir,
Dardd o eigion Craig yr Oesoedd, rêd hyd raian sanctaidd dir;
Ffrydiau hon a bâr lawenydd yn heolydd Dinas Duw,—
Bythol-wyrddion fydd ei glenydd, a di-ball ei dyfroedd byw.

"Beth yw Purdeb? Llygad nerthol enaid sanctaidd, dyna yw,—
Llygad treiddgar, perffaith gywir, wêl yr Anweledig Dduw.
Awyr iach y byd ysprydol, gwasgar bywyd yw ei nod;
Elfen heb ddim cymmysg ynddi,—anadl yr Anfeidrol Fod.

"Beth yw Purdeb? Perl cymmeriad—llurig rhag picellau'r fall;
Sylwedd nas gall tân ei ddifa,—enaint sydd yn bêr ddi-ball;
Rheol aur i'r neb a'i medda—yn y galon, delw Duw;
Hanfod Nef y nef ei hunan—pobman hebddo, uffern yw."

Beth arall, ynte, ydyw crefydd gywir, ond awydd byw bywyd o ddefnyddioldeb, bywyd dilychwin, bywyd pur—awydd ymddwyn yn deg ac yn onest ac yn gyfiawn tuag atom ein hunain a'n cyd-ddynion, a'r awydd hwnw mor gryf nes y mae i'w ganfod yn elfen fyw, ymarferol, a dylanwadol yn y cymmeriad—bod yn bur, er mwyn purdeb ei hunan; yn onest, er mwyn gonestrwydd ei hunan; ac yn gyfiawn, er mwyn cyfiawnder. Nid er mwyn osgoi tân uffern neu fwynhau dedwyddwch y nefoedd—byddai y naill a'r llall yn ddymunol yn ddiau; ond y mae cymhellion o'r natur hyn yn unig, yn rhy hunanol ac annheilwng i'w coleddu am foment. Gwell fyddai efelychu yspryd y bardd Cymreig pan y canai yr hen bennill adnabyddus,

"Mae arnaf eisieu sêl
A chariad at y gwaith;
Ond nid rhag ofn y gosp a ddel,
Nac am y wobr chwaith;
Ond gwir ddymuniad llawn
Ddyrchafu cyfiawn glod,
Am iti wrthyf drugarhau
A chofio am dana' I 'erioed."

Llawer o siarad, o ysgrifenu, o areithio, o bregethu, a barddoni sydd yn y dyddiau presennol yn nghylch "llwyddo mewn bywyd," onid ê? Gwir nad yr un peth y mae pawb yn ei olygu wrth y frawddeg swynol hon; ond yn fwyaf cyffredin, os ydwyf yn deall yn iawn, yr hyn a olygir wrth ddweyd fod hwn-a-hwn wedi "llwyddo mewn bywyd," ydyw ei fod ef wedi gwneyd ei *fortune*. Ac, yn ddiamheu, dyna ydyw y syniad uchaf y mae y rhan fwyaf o bobl yn gallu ei ffurfio am lwyddiant mewn bywyd; yn wir, dyna *ydyw* amcan mawr bywyd llawer un; nid ydynt yn byw i ddim ond i ddyfod yn oludog. Llafuriant yn ~~ddiwyd o foreu hyd hwyr;~~ ymdrechant, ymladdant, dyoddefant, ac yn y diwedd deuant allant yn —*oludog*. Dyna yr *ideal* wedi ei gyrhaedd, dyna frwydr fawr bywyd wedi ei hymladd, dyna'r yrfa wedi ei rhedeg, a'r wobr wedi ei hennill. Dyna'r gwaith wedi ei orphen, a'r gyflog wedi ei derbyn; ond änt ymaith gan adael yr *ideal*, y wobr, y gyflog, a'r cwbl ar eu hol, a'r byd o hyny yn waeth nag yr oedd pan ddaethant iddo, heb ddarfod iddynt

Suffino o cofiad hawl hy

gyfranu cymmaint ag un gronyn tuag at ddyrchafu cyflwr dynoliaeth, na gwneyd un iod o ddaioni er gwella cymdeithas. Y mae oes wedi ei gwario i geisio cyrhaedd y fath amcan annheilwng yn llawn cynddrwg a phe y buasid wedi ei gwario i ddim amcan o gwbl; oblegyd y mae y naill a'r llall wedi ei gwario yn ofer, a gellir ei symio i fyny trwy ddweyd

> "Life of nothings, nothing worth
> From that first nothing ere their birth
> To that last nothing under earth!"

Nid ydwyf, wrth gwrs, yn diystyru cyfoeth—gresyn na fuasai genyf dipyn o hono—ond dweyd yr ydwyf y dylai amcan penaf bywyd fod yn rhywbeth annhraethol mwy gogoneddus nâ cheisio pentyru cyfoeth ar ei gilydd i ddim ond i rydu, ac i genedlu diofalwch, oferedd, a diogi, yn y rhai y mae yn y diwedd yn dygwydd i'w rhan, heb son am yr atgasedd, y cwerylon, a'r annghytundeb y mae yn rhy fynych yn ei beru rhwng perthynasau ac ereill a'u gilydd.

Clywais lawer gwaith rai Cymry yn cwyno o herwydd na wyddent yn y byd ar ba beth i osod eu bryd fel prif amcan eu bywyd. Tybient nad oes angen diwygiad a gwelliant yn mhlith y Cymry sydd ar wasgar, nac hyd y nod, ys y dywedent, mewn gwlad "oleuedig" megys Cymru; ac esgusodant eu hunain rhag ymweithredu ar y plê nad oes dim gwaith yn galw arnynt yn mhlith cynnifer o bregethwyr, o ddysgawdwyr, beirdd, a llenorion. Ie, gwlad yr Ysgol Sabbothol, gwlad yr Efengyl, gwlad y rhinweddau i gyd ydyw Cymru! Clywir ambell dro hefyd rai Cymry go sêlog yn llongyfarch eu hunain o herwydd eu bod, fel cenedl, ys y dywedent drachefn, wedi eu goleuo gymmaint, wedi derbyn y gwirionedd mor hael~~frydig~~, ac wedi eu hanfon ~~gan y Nefoedd~~ i'r byd mewn trefn i Gristioneiddio y paganiaid, ac i ddwyn goleuni i ranau tywyll y ddaear. O! fychander truenus! O! hunanedd annhraethol! Os eisieu gwaith sydd ar y cyfeillion hyn, os dyheu y maent am amcan teilwng i'w bywyd, beth pe buasent yn ymysgwyd o'u cwsg breuddwydiol, yn agor eu llygaid, ac yn edrych o'u hamgylch fel ag 1 weled y trueni a'r gofid sydd yn y byd? Yna, cant amcan teilwng i osod eu bryd arno yn eu gwlad eu hunain, a gallant ymegnio yn ddifrifol tuag at wneyd rhywbeth i wasgaru y tew gymmylau tywyll o ofergoeledd a rhagfarn sectyddol ag sydd wedi meddiannu cynnifer o Gymry yn y dyddiau presennol; i symmud ymaith y muriau uchel o lygredigaeth a phechod ag ydynt yn rhwystr i ni fyned yn mlaen a chynnyddu mewn gwybodaeth wyddonol ac ymarferol; i ddryllio yn chwilfriw yr hen ddelwau y mae dynion etto yn syrthio o'u blaen, ac yn eu haddoli; ac i dori yn ddarnau y llyfetheiriau ag sydd yn ein cadw ni yn ein hunfan, a'r rheffynau sydd yn ein rhwymo ni mor ~~gadarn~~ wrth hen draddodiadau, a ffurfioldebau, a moesddefodau bryntion nad ydynt ond gweddillion anwareidd-dra tywyll oesoedd y ddaear. Oes, y mae digon o waith hyd y nod yn Nghymru. Ac y mae digon o waith hefyd yn mhlith Cymry y Brif Ddinas. Y mae yma Gymry ieuainc,

yn feibion ac yn ferched, yn myned ar gyfeiliorn yn mhob ystyr. Nid oes angen i ni, gan hyny, fod heb amcan mewn bywyd; ac nid oes angen i ni, mi a gredaf, esgeuluso gweithio gyda'r esgusawd gwael fod rhywun arall teilyngach yn debyg o ymgymmeryd ag ef. Y mae y byd yn eang, ac y mae i bawb ei waith ynddo—

In this world so great and mighty,
  There's a place for everyone,
And each one must find his corner,
  Ere life's battle can be won.—
One is born to be a merchant,
  One to law with longing turns;
One to art, and one to physics,
  One with fire poetic burns.
One is born to grind the corn,
  One to sow and reap it;
Every mortal has his place,
  Find yours, then, and keep it.

YMDRECH A LWYDDA.

Ha! gyfaill pur, paham y sefi di
  Ac eistedd lawr cyn cyrhaedd pen dy daith?
A flinaist, frawd, cyn ennill iti fri?
  A wyt ti'n gwel'd y ffordd yn serth a maith?
O cod dy isel ben, gwel acw draw:
  Mae euraidd byrth enwogrwydd led y pen;
Mae urddas claer dan wenu'n codi llaw
  Yn dy wahodd, er gwaetha'r byd a'i sén.
Ymdrechu raid, a dyfal ddal o hyd,
Er gwaethaf gorthrwm gygus fyd;
Os ydwyt am argraffu'th enw fry
Ar lafnau clod, rhaid bod yn ddewr a hy'.

Cenfigen erch a'i brad gwenwynig fydd
  Yn dy ddisodli beunydd ar dy daith;
Er hyny, na lwfrha, symbyliad rydd
  It' ymegnio'n fwy-fwy at dy waith:
Po ucha'n wir y teg esgyni di,
  Bydd llai gelynion iti ar dy rawd;
A phan dywyna urddas arnat fri,
  Cydnebydd pawb di'n hoff *anwylyn ffawd*.
Os am i'r byd i deimlo'n ddwys dy nerth,
Rhaid beunydd brynu profiad, mawr ei werth;
Gorchestwaith cawr fydd byw er gwaetha'r byd,
Tra ef ei hun yn ngharchar bedd yn fud.

Pwy wisgodd fantell hardd anrhydedd càn?
Pwy gafodd goron urddas ar ei ben?
Ai nid y sawl ymdrechodd—wnaeth ei ran—
Er gwaethaf rhwystrau byd, ei ŵg a'i sen?
Os am gymdeithas meibion dysg a dawn,
Ac eistedd ar orseddfainc orwech Bri,
Rhaid iti gladdu llwfrdra'n isel iawn,
Nes delo mwy i'th ddigaloni di.
Mae dysglaer engyl anwyl nef o'th du,
O tyr'd yn mlaen, a gwrol sanga'n hy';
Ac ymegnïa'n wastad, bydd yn ddyn,
Mae help wrth law i'r sawl a helpio'i hun.

Merthyr. GWERNYFED.

Y DDUWINYDDIAETH NEWYDD YN MHLITH YR UNIONGRED.

YR ydym ni, fel enwad, yn dra chyfarwydd erbyn hyn a'r achwyniad a glywir mor aml yn ein plith nad ydym yn gwneyd nemawr cynnydd. Yn wir, fe ä rhai mor bell a dweyd nad oes cynnydd—nad ydym hyd y nod yn aros yn yr un man, a'n bod yn cyflymu tuag yn ol. Nid cyfeillion yr achos Undodaidd sydd yn dweyd hyn, ond gelynion, a dynion na wyddant nemawr o'n hanes; a thebyg, yn yr achos hwn, fel mewn llawer o achosion ereill, fod y dymuniad yn dad i'r meddwl. Hoff iawn ydyw ein cyfeillion iawnffyddiog o daflu'r ffaith (?) hon i'n gwynebau fel prawf digonol nad yw'r gwirionedd genym, gan annghofio, yn ol y safon hon o farnu gan bwy mae'r gwirionedd, nad yw Cristionogaeth yn wir ei hun, o herwydd mae amryw o'r crefyddau Dwyreiniol yn cael eu proffesu gan lawer mwy o bobl nag sydd yn proffesu Cristionogaeth. Priodol iawn oedd atebiad un hen frawd yn Sir Aberteifi yn ddiweddar i gyfaill iawnffyddol oedd mewn dadl ag ef. "Os y ch'i sy'n iawn," meddai, "pa'm na fysech ch'i'n fwy lluosog?" I hyn atebodd y llall, "Llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis." A therfynwyd y ddadl, fel y'm hyspyswyd, ar hyn.

Ar yr un pryd, tra yn caniatau nad ydym i'n cymharu mewn rhif â'r enwadau ereill, yr ydym yn mawr lawenhau wrth sylwi fod egwyddorion Undodiaeth yn lledu ac yn ennill tir yn mhob cyfeiriad. Nid yw llafur yr ardderchog lu o dadau Undodaidd fuont yn gweithio mewn amser ac allan o amser, pan oedd yr achos Undodaidd yn fwy dirmygedig nag yw yn awr, wedi bod yn hollol ofer. Mae'r hyn a bregethid yn ein capeli yn nechreu'r canrif hwn a diwedd y llall yn cael ei bregethu heddyw yn ddigêl mewn llawer o gapeli iawnffyddol yn Lloegr ac America, ac o bossibl mewn rhai manau yn Nghymru hefyd. Nid yw yn cael ei alw yn Undodiaeth. Fe'i gelwir yn Dduw-

inyddiaeth Newydd. Ond nis gwaeth beth yw'r enw: nid yr enw sydd o bwys, ond yn hytrach yr egwyddorion sydd dan yr enw. Ac nis gall lai na rhoddi boddhad digymmysg i bob carwr rhyddid barn mewn materion duwinyddol i feddwl fod yr egwyddorion a gyhoeddir o'n pwlpudau ac yn ein llenyddiaeth, a thros y rhai y rhoddodd Serfed ei fywyd ac y dyoddefodd y tadau lawer o ddirmyg a gwawd ac erlidigaeth, yn cael derbyniad mewn cylchoedd lle y buont unwaith yn heresïau peryglus.

Nid wyf yn siarad ar antur. Mae pob papyr a ddaw i'm llaw bron (a chyfeiriaf at y cofnodolion a berthynant i'r blaid ryddfrydig mewn crefydd) yn dwyn i'r golwg brofion amlwg o wirionedd y gosodiad hwn, sef fod syniadau a ystyrid unwaith yn hereticaidd yn cael eu cyhoeddi yn ddigêl yn y byd iawnffyddol; ac yn mhellach, y maent yn cael eu goddef. Mae rhywun yn barhaus yn cael ei ddwyn ger bron yr awdurdodau i ateb am hyn. Bu amser, er's ychydig yn ol, pan yr oedd y sawl a geid yn euog o gyhuddiad o'r fath yn cael ei daflu dros y drws yn ddiseremoni; ond y mae'r awdurdodau erbyn hyn, gallem feddwl, yn dechreu gweled ffolineb y fath ymddygiad, o herwydd, yn hytrach na thaflu'r cyhuddedig dros y drws, tybir yn awr mai gwell yw naill ai dwyn y ddedfryd yn ffafr y cyhuddedig, neu, ynte, os yn euog, ei gynghori i beidio gwneyd y drwg drachefn. Yn wir, mae genyf o fy mlaen, pan yn ysgrifenu'r geiriau hyn, enghraifft o un a gyhuddwyd felly yn cael ei ollwng yn rhydd heb un cerydd. Dygwyd y cyhuddiadau canlynol gan un Dr. Blake yn erbyn gweinidog ieuanc gyda'r enwad Annybynol yn America o'r enw Mr. Brown:—1. Nad oedd Mr. Brown yn dal y syniad am yr Iawn fel ei dysgir yn yr Ysgrythyrau a chan yr enwad Annybynol. 2. Nad oedd yn dal y syniad am Ymgnawdoliad fel ei dysgir yn y Beibl a chan yr enwad Annybynol. 3. Ei fod yn ymddangosiadol wadu athrawiaeth y Drindod, &c. 4. Ei fod yn bychanu, os nad yn gwadu, awdurdod y Beibl, &c. 5. Fod ei iaith yn tueddu i fychanu y Beibl a Christ. Bu'r cynghor a bennodwyd i wrando'r achos yn eistedd am ddau ddiwrnod, a thraddodwyd y ddedfryd ar y diwedd gan y Parch. Newman Smyth—gwr tra adnabyddus fel pregethwr a llenor. Y canlyniad fu i'r cyhuddedig gael el ryddhau o bob cyhuddiad a ddygesid yn ei erbyn. Diolchwyd iddo gan y cynghor am ei amddiffyniad deheuig, ac annogwyd yr eglwys i roi sylw dyladwy i'w addysgiadau: fod goleuni newydd wedi ei daflu ar y Beibl, ac y dylai dynion chwilio am y gwirionedd yn ol y goleuni uchelaf sydd ganddynt. Gyda phriodoldeb mawr y sylwodd un aelod o'r cynghor, ac efe ei hun yn lleygwr, y byddai y dyfarniad hwn yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes yr eglwysi Annybynol yn America. Beth yw effaith y ddedfryd hon? Wel hyn: – Dywed y dylai y dyn ieuanc yn erbyn yr hwn y dygid y cyhuddiadau, ddysgu'r Ysgrythyrau yn ngoleu gwyddor, rheswm, cydwybod, a hanes; y dylai fod yn ffyddlon i Dduw yn hytrach nag i gredo, neu gynghor, neu eglwys, neu gyfundeb o eglwysi; ac y dylai ddwyn o flaen y bobl bob darganfyddiad fyddo yn tueddu i wneyd y gwirionedd yn fwy tanbaid, ac

i'w harwain at fwy o wirionedd. Mewn gair, mae'r cynghor wedi rhoddi iddo ryddid cyflawn i draethu'r gwirionedd fel yr ymddengys iddo ef, heb ofni un awdurdod ddaearol; ac wrth reswm, mae'r rhyddid hwn a roddwyd iddo ef yn cael ei roddi mewn effaith i bawb ereill sydd yn dewis ei gael; ac os gwir yr hyn a ddywedir am y dynion ieuainc a ddeuant allan o wahanol golegau duwinyddol y wlad, yn fwy arbenig efallai Coleg Duwinyddol Yale, sef eu bod oll yr un peth â'r dyn ieuanc y cyfeiriwyd ato eisoes, diamheu eu bod wedi derbyn dedfryd y cynghor hwn gyda llawenydd, ac y gwnant ddefnydd cyflawn o hono yn eu gwahanol gylchoedd gweinidogaethol. Rhwydd hynt iddynt.

Mae ein darllenwyr yn ddiamheu wedi clywed llawer yn ystod y blynyddau diweddaf hyn am y Dduwinyddiaeth Newydd. Hyd yma, nid oedd ond rhywbeth dirgel, heb fod yn ddigon gwrol i wthio ei phen i'r golwg yn mhell rhag ofn y canlyniadau. Yr oedd rhai ysprydion dewr yn ei chyhoeddi yn ddigel; yr oedd rhai o honynt yn syrthio i law y gelyn—yr heresi-heliwr ac ereill—wel, ni feiddiai'r heresi-helwyr gyffwrdd â hwynt, gan eu bod gymmaint uwchlaw iddynt. Ond nid yw llafur y bobl hyn wedi bod yn ofer; ac o herwydd eu dewrder, mae'r lefain wedi bod ar waith. Ac yn awr, mae'r cynghor uchod wedi rhoddi sel ei gymmeradwyaeth arni; ac o hyn allan, y Dduwinyddiaeth Newydd fydd y dduwinyddiaeth gydnabyddedig gan y mwyafrif o Eglwysi Annybynol America, ac ni chlywir son am dreialon am heresi yn eu plith mwy. Nid wyf am i'r darllenydd dybied fy mod yn ystyried y Dduwinyddiaeth Newydd yn gwbl y dymunem iddi fod; ond y mae yn gwynebu yn yr iawn gyfeiriad. Y peth mawr yw cael gan ddynion i adael yr hen syniadau creulawn am Dduw, am ddyn, am yr Iawn, &c., sydd wedi cael ei wneyd gan gofleidwyr y Dduwinyddiaeth Newydd; ac unwaith y dechreuant symmud, mae eu cynnydd yn sicr.

Mae'r pwnc hwn i mi yn ddyddorol. Nis gwn a ydyw felly i'ch darllenwyr ai nad yw. Mae ger fy mron pan yn ysgrifenu hanner dwsin o lyfrau, gan rai o brif genadon y dduwinyddiaeth hon yn America, ac yn Lloegr. Pe baem yn rhoddi i'ch darllenwyr ddesgrifiad o rai o'r llyfrau hyn a'u cynnwysiad, tybiaf y byddent yn synu yn fawr. Efallai y gwneir hyn mewn erthygl arall.

QUIS.

IOLO MORGANWG A THOMAS GLYN COTHI.

MR. Gol.,—I Mr. Lleufer Thomas, Ysgrifenydd y "Ddirprwyaeth Dirol," yr ydym yn ddyledus am yr erthygl dyddorol a ganlyn. Credaf y byddwch yn falch i roddi lle iddi yn YR YMOFYNYDD. – R.J.J.

YN y golofn hynafiaethol a ymddengys o wythnos i wythnos yn yr *Oswestry and Border Counties Advertiser*, ac a adgyhoeddir yn

gyfrolau dan yr enw *Bye-gones*, ymddangosodd yn y flwyddyn 1891 gyfres o lythyrau allan o gronfa Myfyr, y Cymro Llundeinig, ar draul yr hwn y casglwyd ac y cyhoeddwyd y *Myvyrian Archæology of Wales*. Llythyrau cyfeiriedig at Myfyr ei hun yw y rhan fwyaf o'r rhai a roir yn *Bye-gones*, a'r mwyaf dyddorol o honynt efallai ydynt eiddo Iolo Morganwg, yn rhoi hanes ei helynt, pan ar ei deithiau trwy Gymru, yn chwilio a holi am hen lawysgrifau Cymraeg. Efallai mai dyddorol fyddai pigo allan y cyfeiriadau a wneir gan Iolo at y Parch. Thomos Evans (Tomos Glyn Cothi) yn y llythyrau hyn, a chan eu bod oll mewn iaith syml, rho'wn hwynt yn eu gwisg Seisnig yn ddigyfieithad.

Mewn llythyr dyddiedig "Flimston, Nov. 15, 1798," cyfeiria Iolo at ei fwriad i gychwyn yn mhen tair wythnos neu fis o amser ar daith i'r Hafod yn Sir Aberteifi, a dywed:—

"I will enquire in Cardiganshire for Dafydd ap Gwilym's Grammar, which I am told is somewhere there; and will in my way call at Brechfa on the Rev. Mr. Evans, the Dissenting Minister, who, about two years ago, told me where he heard there was such a manuscript."

Yn ngharchar Caerfyrddin, os nad wyf yn camsynied, yr oedd Thomas Evans ryw ddwy flynedd yn flaenorol, a thebyg mai yno y cafwyd yr ymddyddan a grybwylla Iolo, yr hwn, yn ddiamheu, yn ei gymmeriad o "Fardd Rhyddid" *(Bard of Liberty)*, a ymwelodd â bardd Glyn Cothi, pan yn ddyoddef cosp am ganu "Cân Rhyddid" yn ardal Brechfa. Am y siwrne i Sir Aberteifi, tebyg iddi gael ei gohirio o herwydd dryccin y Gauaf, oblegyd ni chyrhaeddodd Iolo yr Hafod Ychtryd cyn diwedd Mai, 1799. Yn ei lythyr cyntaf o'r Hafod at Myfyr (dyddiedig "May 28, 1799") dywed:—

"I arrived here last Thursday, after having been detained on my way for eight days, partly by rain and partly by a violent cramp in my breast, which has much afflicted me this Spring. Thus indisposed, I was glad to accept of a pressing invitation to stay for a few days at the house of my friend, the Rev. Thomas Evans, a Dissenting Minister, of Brechfa, in Carmarthenshire, which I had premeditately taken in my way for the sake of looking into the manuscripts of Iago ap Dewi, 7 or 8 in number, which he possesses; they contain some pieces of Taliesin, Llywarch Hen, Gruffydd Llygad Gwr, and others of the Gogynfeirdd: a large collection of the works of Dafydd ap Gwilym, and I believe several good pieces that are not printed—a good selection in several volumes of our best bards of the 14th, 15th, and 16th centuries: a better copy than that of your collection, which you may recollect is with me, of Cato Cymraeg: some collection of Welsh prose, being additions to Dr. Davies: a history in Welsh of Sir Rhys ap Thomas, and some other things worth preserving. Mr. Evans's best compliments to you, he admires your patriotism, and informs you that I may copy anything that his manuscripts contain."

O'r Hafod, aeth Iolo i fyny i'r Gogledd, ac ysgrifena ar y 12fed o Fehefin yn yr un flwyddyn o Lanrwst, ac ar yr 28ain o Orphenaf, o Fangor. Cyfeiria at ei fwriad i dalu ail ymweliad a Brechfa, pan yn dychwelyd adref:—

"I will stop a few days at Brechfa to copy something from Iago ap Dewi's MSS., and mark out a select number of things which Mr. Evans will copy and send up to you."

Mewn llythyr diweddarach, ysgrifenedig o "Beaumaris, Augt. 13, 1799," gwna gyfeiriad helaethach at yr hyn a fwriadai wneyd yn Mrechfa :—

"I shall return by way of Dolgellau, Havod, and Carmarthen home, taking Brechfa in my way. I have, some years ago, taken what I thought then the the cream of Mr. Evans's (of Brechfa) manuscripts—those of Iago ap Dewi. I shall give them another examination, and if there is much in them of what is important, besides what I have already copied, I will send up the books to London, for I can venture to say that Mr. Evans, with whom I have been for many years on very intimate and most friendly terms, will send them : but if I find not more than can be copied in a few days or a week, I think it best to stay there and take copies of the best things that this collection contains. Amongst the articles which I have not copied there are the Ancient Welsh Fables, better copies than those in your book, whence I had mine, a copy of the Cato Cymraeg, better also than your copy : these can be copied in two days at least (sic.), probably in one day. I think it needless to copy anything of the 'Beirdd diweddar' from about 1450 to 1600, which these manuscripts contain. I have long ago copied what I thought the best, and have besides several collections of the Bards of those centuries, partly in old MSS.. of which I have several volumes, and amongst them two very large volumes and partly what I have from time to time transcribed myself : all these I will bring with me to London."

Yn ol y llythyr olaf a ddyfynwyd uchod, deallwn fod o'r hyn leiaf rai (os nad y rhan fwyaf) o lawysgrifau Iago ap Dewi yn eiddo y Parch. Thomas Evans tua diwedd y ganrif o'r blaen. Ar hyn o bryd y mae llawer o ysgrifau allan o gasgliad Iago ab Dewi wedi dod i feddiant tref Caerdydd, trwy i awdurdodau y *Free Library* brynu llyfrgell William Rees, o'r Tonn, Llanymddyfri—argraffydd enwocaf Cymru. Nis gwn, ond hoffwn wybod, p'un a ydyw yr ysgrifau a enwir gan Iolo yn ei lythyr, yn awr yn mysg y rhai sydd ar gadw yn Nghaerdydd. Os ydynt, byddai hanes eu treigliad o ddwylaw Thomas Evans i Lyfrgell y Tonn yn ddyddorol. Mwy tebyg, er hyny, nad ydynt yn Nghaerdydd ; os felly, cwestiwn mwy pwysig yw, beth sydd wedi dygwydd iddynt ? Dylent fod yn rhywle yn ardal Aberdar, lle y treuliodd Thomas Evans hanner olaf ei oes.

Yn y Rhagymadrodd i'r *Myvyrian Archæology*, dyddiedig y 1af o Ionawr, 1801, telir diolchgarwch gan y Golygwyr (Myfyr, Iolo, a'r Doctor Puw) i'w "cyfeillion parchus a'u cydlafurwyr yn maes llenyddiaeth Gymraeg, am ganiatad i ddefnyddio eu llawysgrifau cywrain, ac hefyd am eu hawgrymiadau a'u caredigrwydd tuag at y gwaith." Yn y rhestr a ganlyn o'r cyfryw gyfeillion, ceir "The Reverend Mr. Evans, of Brechfa, Carmarthenshire," yn nghyd ag enwau deuddeg o lenorion ereill, y rhan fwyaf o honynt yn wyr adnabyddus ddigon. Anhawdd ar hyn o bryd yw dweyd faint yw ein dyled i Thomas Evans am achub rhag difancoll lawer o lawysgrifau Cymraeg Sir Gaerfyrddin, megys eiddo Ieuan Brechfa, a chasgliad Iago ab Dewi ; ond cydnabyddid y ddyled ar y pryd gan Iolo ac ereill a feddent y cymhwysdra gofynol er barnu y mater.

Y mae un llyfr bychan yn llawysgrif Thomas Evans—a dim ond un—wedi dygwydd dod i'm meddiant I. Casgliad ydyw o ddetholion rhyddieithol a barddonol, yn Saesneg yn gystal a Chymraeg, o waith gwahanol awdwyr, yn nghyda llawer o waith yr ysgrifenydd ei hun, ond barddoniaeth Gymraeg yw y mwyafrif o'r darnau. Y llyfr hwn yw yr un a elwir y *Gell Gymmysg* yn "Hanes Bywyd" Thomas Evans yn *Ngardd Aberdar*, ond "Pigion" yw yr enw sydd wedi ei ddodi gan y rhwymwr ar gefn y llyfr, ac nid wyf wedi dod o hyd i'r enw *Y Gell Gymmysg* ynddo o gwbl. Cynnwysa y llyfr 132 o wahanol ysgrifau, ac ymestyna i 408 o dudalenau o faintioli 12 plyg. Y mae y llawysgrif yn un gryno, ac weithiau hyd y nod yn ddestlus. Ysgrifenwyd y rhan fwyaf, os nad yr oll o honi, tra yr oedd Thomas Evans yn byw yn Mrechfa. Cynnwysa amryw ddarnau o waith Iolo Morganwg, ac ar dudalenau 401–4, ceir y ddwy Salm ganlynol o eiddo Iolo: "Salm xiv.—Dymuno bod fel y dylai gwas i Dduw fod." Dechreua—

"Fy nerthlawn Dduw mawr yw dy glod."

Y llall ydyw "Salm xx.—Annog daearolion i foli Duw. Ar hen erddigan Morganwg." Dechreua hon—

"Awn holl drigolion daear,
A gorfoleddus lafar."

Cynnwysa y Salm gyntaf bedwar pennill wyth llinell, a'r ail, naw pennill pedair llinell. Nid oes genyf gopi o hymnau Iolo wrth law, er gwybod p'un a yw yr uchod yn ei gasgliad. Os nad ydynt, gallaf anfon copi o honynt i'r YMOFYNYDD.

Ar ddiwedd yr ail Salm, ceir a ganlyn, "Transcribed May 21st, 1799, at Penpistyll, Mr. E. Williams was present." Y mae y nodiad hwn yn cytuno á'r hyn a ddywedir gan Iolo yn y llythyr a ysgrifenodd o'r Hafod, sef iddo dreulio rhai dyddiau yn Mhenpistyll, Brechfa, tua diwedd Mai, 1799.

11, *Campden Grove, Llundain,*
Llun y Pasc, 1896.

D. LLEUFER THOMAS.

CYMDEITHAS DDYNGAROL.

(Buddugol yn Eisteddfod Gadeiriol Heolyfelin, Aberdar).

O GYMDEITHAS ddyngarol!—ei chynnyrch
Weina fri arosol;
Tirion nodded rhinweddol
I weithgar chwaeth geir o'i chol.

Harddwch dyngarwch agora—o flaen
Tirf lwydd ei gorseddfa;
Grasau y gwir wasgara
Ei gwên deg â'i hyni da.

Stôr lawn yw ei chostrel hi—o lesiol
Felusion haelioni;
Rhin ffawd i bob brawd mewn bri
A ddwg hon yn nydd cyni.

Hi ddyry nawdd i'r hen o hyd;—cana
Lesg wyneb nos adfyd;
Aur flwch dyngarwch i gyd
Yw holl dda ei llaw ddiwyd.

A chôd aur ar ei braich dirion,—ymwêl
A myrdd mewn angenion;
I faes y clwyfus gleifion
Daw gwawr Duw o gariad hon.

Clydach. PERLLANOG.

DR. SION CENT.

(*Parhad.*)

EI DDYCHWELIAD I WLÂD EI ENEDIGAETH.

WEDI marwolaeth ei ewythr, nid oedd gan Sion, druan, ddim yn amgen i'w wneyd nâ dychwelyd i hen ardal ei enedigaeth, yr hyn a wnaeth—taith faith, yn neillduol yr amser hwnw, i grwt ieuanc ei cherdded—yr holl ffordd o Gaer i Forganwg. Hoffem wybod ei hap a'i helynt ar y ffordd; ond nid oes genym ond dyfalu, ac nid yw ein dyfaliad ni heddyw ond gwan iawn o'r hyn oedd teithio yr adeg gynhyrfus ac ysgeler hono. Eithr efe a ddychwelodd, a diau fod golwg resynus o dlawd arno pan y cyrhaeddodd ben ei daith; a chan ei fod yn amddifad o unrhyw gynnysgaeth at ei gynnaliaeth, nac ychwaith unrhyw berthynas i'w noddi, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd mwy ond ymostwng i weithio â'i ddwylaw ac ymroddi i ennill ei gynnaliaeth trwy lafurwaith cyffredin, yr hyn nid yw yn sarhad ar un dyn byw. Felly y bu: y son nesaf gawn am dano yw, ei fod yn was cyflog i amaethwr yn nghymmydogaeth Caerffili, lle yr adnabyddid ef gan ei gydnabod dan enw ei ardal enedigol—Sion Cwm Tridwr,

Ni fu ei fywyd a'i wasanaeth gyda'r ffermwr hwn ond caled a gorthrymus i'r eithaf; yr oedd ei feistr yn glamp o ddyn dideimlad

a chalongaled, ac, fe ddichon, yn cymmeryd mantais arno am ei fod yn amddifad o ddyn i gymmeryd ei ran. Ar un diwrnod oer a gwlawog, ar ol bod trwy gydol y dydd yn bugeilio, ac yn tarfu y brain oddiar y cae gwenith, daeth i'r ty yn oer, gwlyb, a newynog; a phan neshaodd at y tân i ymdwymo, gofynodd ei feistr yn sarug iddo, "Paham y daethost oddiar y maes a gadael i'r brain bigo'r gwenith i gyd?" Yr ateb y mae traddodiad chwedlonol yn dadogi i Sion yw hynyma – "O," ebai efe, "y mae y brain bob un yn ddyogel eu gwala yn y 'sgubor." Y ffermwr bolrythog, wrth gael y fath atebiad ffraeth a pharod gan y crwt, a gyffrodd yn aruthr; a chan gydio yn ei ffon, efe a gurodd y crwt yn greulon a didrugaredd, ac a'i taflodd allan o'r ty. Ac yn y fan hon nid annyddorol fyddai rhoddi y chwedl yn ei hyd. Wedi ei daflu allan gan y meistr, aed yn mhen rhyw enyd o amser i chwilio am dano, iddo gael tipyn o fwyd, fe ddichon; ond nid oedd son am y crwt yn unman, er galw a galw am dano yn nghylch y baili a'r tai anifeiliaid—dim son am Sion! Ar hyn clywyd y lleisiau mwyaf aflafar a'r ysgrechiadau mwyaf oernadus a glywodd neb erioed yn dyfod o gyfeiriad yr ysgubor. Aed yno ar ffrwst i edrych beth oedd yn bod; ac er syndod i bawb, cafwyd ei bod yn orlawn o frain; ac er fod yno ddigon o le iddynt ddianc allan, nid oedd yn bossibl i un o honynt fyned trwy y naill ddrws na'r llall: yr oeddynt megys yn ddeillion bob un, ac yn hedfan bendramwnwgl ar draws eu gilydd, nes oedd pawb wedi dychrynu wrth edrych arnynt. Yn mhlith ereill a ddaethant i weled yr olygfa yr oedd y ffarmwr, a'r foment y daeth efe yn agos i ddrws yr ysgubor, dyma'r brain yn un haid yn ymosod arno yn ddidrugaredd, a phigasant ei lygaid allan o'i ben ar fyr dro. Y ffermwr, druan o hono, wedi cael y fath driniaeth echryslon gan y brain, a gofiodd am y gamdriniaeth a roisai efe i'r crwt amddifad, ac a edifarhaodd o eigion ei galon. Ei ymysgaroedd a gynhesodd ac a dosturiodd wrtho, ac efe a anfonodd i bob cyfeiriad i chwilio am dano; ond er dyfal chwilio gwlad a gorwlad, ni chlywyd na siw na miw yn ei gylch, mwy na phe buasai y gwr du cynffonog wedi ei gymmeryd yn dâl ac ysglyfaeth am ei garedigrwydd tuag ato yn crynhoi y brain i'r ysgubor ar ei gais; a'r hyn sy'n syndod mawr yw, na welwyd na brain na phïod yn disgyn ar un cae gwenith yn nghyffiniau Caerffili byth ar ol hyny; a bu yr achlysur hwn yn foddion i drigolion y plwyf hwn gael eu galw wrth y cyfenwad parchus, "Cawcis Caerffili." Boed hyn fel y bo, dyna'r chwedl yn ei hyd a'i lled.

Credwn fod gan Ragluniaeth well bwriad ac uwch darpariaeth ar gyfer dyfodol pwysig Sion nâ bod yn bugeilio brain a phïod ar gae gwenith hen ffermwr taeogaidd a chalongaled yn nghymmydogaeth Caerffili; a dacw ef, druan, yn cefnu ar dy a theulu ei feistr sarug, ac ag ardal ei enedigaeth yr ail waith, heb wybod yn y byd mawr i ba le i fyned. Sut bynag, cefnodd ar Forganwg a Gwent, a'r man cawn afael arno y tro hwn yw yn farchwas *(stable boy)* cyflogedig yn ystablau boneddwr urddasol o'r enw Scudamore yn Kentchester neu

Kentchurch, ar gyffiniau Swydd Henffordd, yr hwn le, wrth bob tebyg, a roddodd iddo y cyfenw bydadnabyddus, Sion Cent, yn lle Sion Cwm Tridwr.

Onid yw yn drueni fod hogyn o gynneddfau mor ddysglaer yn gorfod byw a bod mewn ystabl gyda cheffylau? A chofnodir ei fod yn gorfod cyweirio ei wely yn y gwellt dan y cafn pori—sefyllfa isel, onide? "Ond po dywyllaf y nos, agosaf yr haul i godi;" ac felly gyda Sion: ni fu yn hir yn y sefyllfa druenus hon cyn iddo dynu sylw pawb o'i gwmpas. Canfuwyd yn fuan ei fod yn hogyn ufudd, hoew, a diwyd yn ei waith. Dywedir ei fod yn cadw yr ystabl yn lân a chryno, ac y talai sylw manwl i'r ceffylau, gan eu porthi yn gysson a diesgeulus, a'u cadw yn lân, a'u holl harnais yn drwsiadus; a thrwy ei ffraethineb a'i foesymddygiad boneddigaidd, tynodd sylw ei feistr, yr hwn, bob yn dipyn, a ddechreuodd ymserchu ynddo, a chan ei hoffder o hono, efe a roddai iddo yn awr ac eilwaith ychydig gydnabyddiaeth arianol yn amgen i'r hyn a wnai â'r gweision ereill o'r un safle ag ef, a'r arian hyn a ddefnyddiai Sion i brynu defnydd llyfrau ac "offerynau ysgrifenu;" a phob tro y caffai hamdden ac orig iddo ei hun, neu pan wedi gorphen ei waith, ymroddai i ddarllen ac ysgrifenu, yr hyn o'r diwedd a dynodd sylw y teulu at ei ymddygiad a'i ymroddiad myfyrgar diflino, fel y galwyd ef i'r ty at y teulu, pan y bu raid iddo fyned dan gryn dipyn o arholiad rhwng pob un ag oedd yno, a chafwyd, er syndod mawr i bawb, fod y crwt bach dyeithr yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu Lladin, Cymraeg, a Saesneg, yn nghyd a bod yn hyddysg mewn pob gwybodaeth ymarferol, yr hyn a fu o foddlonrwydd neillduol i'r teulu yn gyffredinol.

Bu yr arholiad hwn o fawr les i Sion, o herwydd bu yn foddion arbenig i'w symmud o'r ystabl i'r palas, ac o drin ceffylau i fod yn athraw i blant ei ymgeleddwr. Y mae bod yn feddiannol ar wybodaeth a doethineb yn hawlio i'r sawl a'i meddo barch a gwarogaeth pendefigion y ddaear. Ni wnaeth cyfoeth na golud neb yn gall hyd yn hyn, ond gwybodaeth a gododd lawer un i anrhydedd heblaw Sion Cent.

Am ba gyhyd o amser y bu Sion ieuanc yn athraw yn y teulu, nid yw hyspys, eithr cofnodir am dano iddo gyflawni ei ddyledswyddau athrawol i'r fath foddlonrwydd, fel y penderfynodd ei ymgeleddwr ei anfon i un o Brif Ysgolion Rhydychain, yr hyn fwriad a gyflawnodd.

Y fan nesaf y cawn son am dano yw yn Rhydychain, yn yr hwn le yr ennillodd iddo ei hun y cymmeriad o fod yr ysgolor blaenaf a'r myfyriwr mwyaf astud a diwyd o bawb ag oeddynt yn y Brif Ysgol ar y pryd. Er cadarnhad o hyn, nis gallwn lai na rhoddi dyfyniad cyflawn o eiddo Leland, yr hwn a ddywed am dano fel hyn:—"Ganwyd ef yn Nghymru; ac â'r fath egni y dylynodd efe ysgolion enwog y Ffransisiaid yn Rhydychain, ac y cynnyddodd mewn gwybodaeth, nes oedd yn syndod i'w holl frawdoliaeth grefyddol." A dywed un arall am dano, "Efe a ddaeth yn Gadeirdraw a Doethawr mewn Duwinyddiaeth; ac ar gyfrif ei rinweddau a'i ragorion enfawr

ac annghyffredin, efe a ddewiswyd yn Benawg Talaethol yr urdd (Ffransisaidd) yn Lloegr." Felly, gwelwn, yn ol y ddwy dystiolaeth uchod, ddarfod iddo esgyn i'r safleoedd uchaf o awdurdod a dylanwad y gallasai ei frawdoliaeth ei harosod arno, fel cydnabyddiaeth amlwg am ei ddefnyddioldeb, yn nghyd â'r dysplead mawreddus a wnaeth o'i alluoedd claerwych yn nglyn a'r urdd a'r frawdoliaeth oedd efe yn benawg iddi.

Dyna ni o'r diwedd wedi dylyn ein gwron hyd y gallasom o'r adeg pan oedd yn grwt bach yn Nghwm Tridwr, yn myned i'r ysgol at ei ewythr—Dafydd Ddu, hyd ei ddyrchafiad i'r gadair broffeswrol yn Rhydychain—y man uchaf y gall dyn yn berchen ymhenydd a gwybodaeth ddringo iddi. Faint o yspaid a gymmerodd i ddringo y grisiau serth hyn, hyd nes y cyrhaeddodd y safle uchel, nid oes genym un dyfaliad, nac ychwaith am ba faint o amser y bu yn y safle uchel hwn yn y Brif Ysgol, nac am ba gyhyd y bu yn dal blaenoriaeth y frawdoliaeth y perthynai iddi, nid oes ar glawr, hyd y gwyddom am dano, un cronicliad a rydd i ni y goleuni lleiaf ar lwybr ein hymchwiliad a'n hymholiad yn ei gylch.

Y man nesaf y cyfarfyddwn a'i enw yw, fel un yn gwasanaethu swydd offeiriad yn nghymmydogaeth Castellnewydd Emlyn, yr hon ffaith a barodd i rai dybio ei fod yn frodor o Sir Benfro—tybiaeth, fel y dangoswyd ar y dechreu, sydd yn hollol gamsyniol a chyfeiliornus. Bellach, nid gwiw i ni ymholi am y paham hwn a'r paham arall: yr unig gofnodiad terfynol a gawn am dano yw, iddo ymadael o gymmydogaeth Castellnewydd Emlyn, a dychwelyd at ei hen ymgeleddwr Scudamore, i ardal Kentchurch, i fod yn gapelwr i'r teulu, ac iddo yno dreulio diwedydd ei oes yn fawr ei barch a'i ddylanwad, ac a gyrhaeddodd oedran mawr: dywedir ei fod yn chwe' ugain mlwydd oed pan y bu farw, yr hyn, i'n tyb ni, sydd gryn dipyn yn rhy uchel. Er hyny, nis gallwn dori y ddadl; am hyny, gadawer ef yn llonydd. Efe a gladdwyd yn mur dwyreiniol Eglwys Kentchurch, a'r rheswm dros hyny, medd traddodiad, yw iddo drwy hyn faeddu'r diafol, yr hwn oedd yn hawlio ei gorff ar ei farwolaeth os y cleddid ef y tu fewn i'r eglwys neu y tu allan iddi, yn y fynwent; ac er mwyn peidio bod yn y naill na'r llall, claddwyd ef dan y mur rhwng y ddau le. Dangosir, meddir, hen feddfaen yn y fynwent fel yn dynodi "Man fechan ei fedd," ond nid gydag un math o sicrwydd mai yn y fan hono y gorwedda gweddillion Sion Cent, a dangosir hyd heddyw ystafell yn Kentchurch, lle yr arferai gadw ei geffylau. Nid ydym wrth hyn am roddi rhyw lawer iawn o goel i chwedlau traddodiadol. Etto i gyd, nid ydym am eu hamheu na'u hanwybyddu yn llwyr, oblegyd gellir cael allan lawer o ffeithiau o hen draddodiadau; mae rhyw ddygwyddiad nen wirionedd yn safon i bob traddodiad yn rhyw arwedd neu gilydd ar y cyntaf. Derbynier a barner pob chwedl am ei gwerth.

Y mae fod darlun o Sion Cent mewn cadwraeth barchus, ac wedi ei gyflwyno o deulu i deulu trwy yr oesau hyd y dydd heddyw, yn

profi fod ei goffadwriaeth yn barchus ac anwyl gan ddisgynyddion teulu y Scudamore crybwylledig.

Hefyd, gadawodd ar ei ol gyfieithad Lladin o'r Beibl ar femrwn, yr hwn, fel ei ddarlun, oedd gan yr un teulu; ond fel y mae gwaethaf y modd, y mae y llawysgrif wedi myned ar ddisperod, neu wedi ei dystrywio, ac nid yw ar gael heddyw. Heblaw ei weithiau barddonol, gadawodd ar ei ol rammadeg yn dwyn ei enw, yn nghyd â lluaws o ddammegion Cymreig — "Moes-Chwedl Einiawn ab Gwalchmai." "Rhian y Llwyn Glas," "Llyfr yr Offeren yn Gymraeg," "Araith y tri brodyr—Pwyll, Nwyf, a Dysg," yn nghyd â lluaws ereill, er cyfarwyddyd bydol ac ymarweddiad goluchwydol. Hefyd, y mae rhai darnau Seisnig ar glawr o'i eiddo—o'r hyn lleiaf, y mae darnau Seisnig mewn llawysgrifen yn cael eu tadogi iddo ef. Dywed Mr. Aneurin Owen am dano, "Nid oes nemawr lawysgrif Gymreig i'w chael heb ynddi rai o gyfansoddiadau Sion Cent, yr hyn a brawf fod ei holl weithiau barddonol yn dderbyniol a chymmeradwy gan bawb." Rhy anhawdd, felly, yw rhoddi cofres o'i holl weithiau barddonol, gan mor eithafol o luosog ydynt, a byddai casgliad cryno o honynt yn gaffaeliad anmhrisiadwy i lenyddiaeth Gymreig, fel ag y gwnaed â gweithiau ei gydoesydd clodwiw, Dafydd ab Gwilym.

(I'w barhau).

NODYNAU GWASGAROG.

YR EGLWYS A'R TAFARNDY.

SYR,

Y mae rhai o'r eglwysi uniawngred mewn penbleth mawr yn bresennol gyda golwg ar y ddyledswydd o dderbyn neu wrthod dynion yn dal cyssylltiad â'r fasnach feddwol fel aelodau eglwysig. Nid oes gan yr Eglwys Wladol un pryder ar y mater, ond y mae cryn ymryson mewn llawer o eglwysi Annghydffurfiol. Edrychir ar y cwestiwn o ddau gyfeiriad: A ddylid derbyn tafarnwr fel aelod eglwysig? A ddylid tori allan un sydd eisoes yn aelod eglwysig am ei fod yn dafarnwr? Fe etyb rhai y ddau gwestiwn, mor bell ag y mae a fyno â'r fasnach, yn gadarnhaol; rhai yn nacaol; ac ereill drachefn, tra'n awyddus i wrthod aelodiaeth yn yr amgylchiad cyntaf, yn foddlawn caniatau i un eisoes yn aelod i barhau felly. Nid yw arweinwyr y bobl yn un modd yn unfrydol eu barn, er, rhaid cyfaddef, fod y penderfyniad canlynol wedi ei basio yn ddiweddar yn unfrydol, mewn cyfarfod o Annybynwyr ac ereill yn Mhontypridd:

"That in the opinion of this meeting the time has now arrived when the Church of Christ should give evidence of its antagonism to the liquor traffic and act in accordance with its resolution to that

effect, by legislating to exclude all liquor traffickers from office and membership in the Church."

Dyna eitha' 'sgubell, gan nad sut y cerir ef allan. Peryglus yw deddfu yn gyflymach nag y bydd *public opinion* yn gallu trafaelu; a phan ddaw gwrthdarawiad, mae'n bossibl y bydd mwy o ddrwg nag o dda yn canlyn. Nid oes neb yn proffesu ei fod yn caru meddwdod; ond y mae rhai llwyrymwrthodwyr drwy fod yn rhy eithafol weithiau yn gwneuthur llongddrylliad o'r achos sydd yn anwyl ganddynt. Nid yw yr eglwysi etto wedi dyfod yn unffurf yn eu hymddygiad at y tafarnwr, ac y mae lle i ofni nad ydynt bob amser yn deg a chyfiawn yn yr hyn a wnant. Mewn capel Methodistaidd ychydig fisoedd yn ol, meddai'r *Christian World*, bu cryn drafferth am fod un o'r diaconiaid wedi troi'n dafarnwr, a gwaeddai llawer am gael ei dori maes. Daeth dirwestwr enwog heibio yn ei dro i wasanaethu'r Sul, a gosodwyd y mater ger ei fron ef. Methodd ef â chynghori tori'r brawd allan, ond cynghorai'n hytrach ei gadw i fewn. Os oedd eisieu tafarn, ei dyb ef oedd mai goreu po oreu fyddai'r dyn a'i cadwai. Yr oedd y cynghor yn ddoeth, er na chymmeradwywn I byth ddiacon i gymmeryd i fyny swydd tafarnwr. Dyma enghraifft arall, fodd bynag, a ymddengys i mi yn annghyfiawn ac annghristnogol. Yr oedd gwr y ty yn dafarnwr, ac yn fynychwr rheolaidd o'r gwasanaeth, ond nid oedd yn aelod. Yr oedd y wraig wedi bod yn aelod am fwy nag ugain mlynedd. Bu'r gwr farw, a daeth y wraig yn benteulu, gyda'r canlyniad iddi gael ei thori maes o fod yn aelod eglwysig. Nid digon iddi golli ei gwr - tad ei phlant, ond yr oedd yn rhaid iddi gael ei hamddifadu, mor bell ag y gallai'r eglwys hon wneuthur hyny, o gysuron ei chrefydd. Onid dyma beth ydyw Phariseaeth bur? Nid dyma ydyw swyddogaeth Eglwys Gristnogol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, aie? Da y dywedodd un o'r D.D.-aid, mewn cyfarfod misol y dydd o'r blaen, "Pa hawl sydd genych chwi i wneuthur drysau'r eglwysi yn fwy cyfyng nâ drysau'r nefoedd?"

BRAWD MORGAN.

CREDO "IAN MACLAREN."

Y mae gan "Ian Maclaren" (y Parch. Jonas Watson) y pregethwr a'r nofelydd enwog erthygl yn yr *Expositor* am Mawrth ar "Iesu ein Hathraw Goruchaf," yn yr hon y dywed fel y canlyn:—"Nid oes un eglwys oddiar y canrifoedd boreu wedi meddu y gwroldeb i roi ffurf i gredo foesegol (*ethical*). Y mae hyd y nod yr enwadau hyny o Gristionogion y rhai nid oes ganddynt o gwbl gredoau duwinyddol ysgrifenedig, etto yn meddu rhyw fath o gyfundeb dystaw (*implicit*) yn gadarnhaol neu yn nacoal ar bynciau o athrawiaeth fel safon. Meddylier am gorff o Gristionogion a gymmerent bregeth yr Iesu fel eu safon ac a lunient eu credo ar ei linellau Ef. Ceisiwch ddychmygu sut y ddarllenai:—

"Yr wyf yn credu yn Nhadoldeb Duw; yr wyf yn credu yn ngeiriau yr Iesu; yr wyf yn credu mewn calon lân; yr wyf yn credu mewn gwasanaeth o gariad; yr wyf yn credu mewn bywyd anfydol; yr wyf yn credu yn y Gwynfydau; yr wyf yn addaw hyderu yn Nuw a chanlyn Crist, maddeu i fy ngelynion a cheisio am gyfiawnder Duw."

A allai un ffurf o eiriau fod yn fwy dyrchafol, yn fwy darbwylliadol, yn fwy deniadol? Onid ydynt yn gyru rhyw ias hyfryd drwy'r galon, ac yn nerthu'r gybwybod? Caniateir rhyddid meddwl, rhyddid pechu yw'r unig rhyddid a waherddir. Pwy wrthodai arwyddnodi credo o'r fath hon? Hwy a ddelent o'r Dwyrain a'r Gorllewin, o'r Gogledd ac o'r Dehau mewn ufudd-dod i'w galwad, ac hyd y nod y cyfryw hyny a bryderent yn ngylch rhwymo eu hunain ar gyfer croesgad mor lluddedbarol, fe'i carent, ac awyddent fod yn deilwng o honi. A ddywed rhywun ei bod yn rhy ddychymygol, yn rhy anymarferol, yn rhy gwicsotaidd, nas gallai'r un eglwys sefyll na gweithio ar y fath safon? Am dair blynedd rhy fyr, ni fu gan Eglwys Crist yr un arall, a darfu iddi drwy fywyd sanctaidd, ac nid drwy gynllun o hollti blew duwinyddol nac athroniaethol, fyw, a dyoddef, a chyffesu dros dair canrif cyntaf y cyfnod Cristnogol."

DYN DAU-WYNEBOG.

Un gwyneb dan deg wenau,—un arall
Can oered ag angau;
Yn llawn o ddrwg gynlluniau,
A d—l ddyn yn dal y ddau.

MYFYR WYN.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUBARTH CYMRU.

Dymuna yr ysgrifenydd roddi rhybudd y bydd efe yn gosod y ddau benderfyniad a ganlyn o flaen pwyllgor cyffredinol y gymdeithas yn Rhydygwin, Gorphenaf y 24ain, 1896, yn ychwanegol at faterion ereill a grybwyllir yn rhaglen y Cyfarfod Blynyddol sydd i ymddangos ar amlen rhifynau Mehefin a Gorphenaf o'r YMOFYNYDD:—

1. Yn ngwyneb fod yr Ysgol Sul yn adran mor bwysig yn ein gwaith crefyddol, fod y pwyllgor hwn o'r farn y dylai ein holl ysgolion, er gwneyd eu haddysg yn fwy trefnus ac effeithiol, fabwysiadu cynllun yr enwadau ereill, trwy gytuno ar faes llafur cyffredin, trwy gyhoeddi gwersi ar y maes hwnw o fis i fis yn YR YMOFYNYDD, a thrwy sefydlu arholiadau blynyddol i brofi gwybodaeth ein hieuenctyd ar destynau eu myfyrdod.

2. Fod pwyllgor i gael ei ethol yn flynyddol i arolygu yr adran hon o waith y gymdeithas, i gael ei alw yn Bwyllgor yr Ysgol Sul.

Os dygwydd fod gan ryw aelod benderfyniad i'w osod o flaen y pwyllgor yn Rhydygwin, byddaf yn ddiolchgar iddo am ei anfon i mi mewn pryd i'w osod yn rhifyn Gorphenaf.

W. JAMES, *Ysg.*

LLYTHYR.

Ymgom ddiswn mewn amgau—yw llythyr,
Llwythog o deimladau
Fel dygwyddir, gwir a gau,
Mwynhad a brad ar brydiau.

Yn mhob annedd mae ei bennod—yn cael
Croesaw cu, cyn gwybod
Ei gynnwys; os dwys sy'n dod,
Och i ormes ei chwermod.

Idd ei rawd ymddiriedol—yr ä hwn
A'i gyfrinion mewnol;
Atebiad o'i hynt wibiol
Yn ddigon hawdd ddwg yn ol.

Athrylith llythyr Elen—i Wil sydd
Feibl o serch mewn amlen;
Hudoledd sy'n mhob dalen,
Yn lliwio iaith ei llaw wen.

Yn benaf oll dros fab neu ferch—y dwg
I dad a mam anerch,
I'w lloni o bell lanerch,
A'i eiriau'n drysorau serch.

Ef yw addurn celfyddyd,—a nodwydd
I drafnidiaeth bywyd;
Cyfaill i addysg hefyd,
Tyfed ei barch,—tafod byd.

MYFYR WYN.

UFFERN BOETH.

Y mae rhyw bregethwr teithiol tua Chwm Rhondda, medde Nhw, a'i wraig hefyd, yn myned i fyny ac i waered i'r dyffryn, ac yn pregethu uffern o dan a brwstan poeth, poeth, poeth, ac i barhau fforefer a fforefer a fforefer, byth ac yn dragywydd, i golledigion y cwm. Dywedodd John Wesley unwaith wrth un oedd yn dadleu ag ef, "Your God is my devil!" ("Eich Duw chwi yw fy niafol I!") Byddai

arnaf fi ofn, Mr. Gol., i gyhuddo un o'm cydfforddolion o ymddygiad tebyg i'r hwn a briodolir i'r Hollalluog gan y pregethwr hwn a'i wraig: byddai arnaf ofn cosp cyfraith. Mae yn gabledd, yn *libel* ar garitor y Tad Goreu, ac y mae yn syndod i mi sut y gall neb gredu y fath beth.

S. N. S.

Y BEDYDDIWR UNDODAIDD.

Yn y *Monthly Repository* am 1807, tudalen 618, ceir hanes sefydliad un David Richards, gwr ieuanc oedd yn aelod o gynnulleidfa y Bedyddwyr Cyffredinol yn Saint Clears, dan ofal y Parch. Benjamin Philips, Saint Clears, fel gweinidog dwy o gynnulleidfaoedd Bedyddwyr Undodaidd—un yn y dref, a'r llall yn nghymmydogaeth Aberteifi. Dywedir mai hwn oedd y cyntaf i gael ei sefydlu fel gweinidog Bedyddwyr Undodaidd yn Nghymru. Dywedir hefyd fod gan Mr. Philips ar y pryd ddyn ieuanc arall o alluoedd dysglaer yn parotoi i'r un weinidogaeth. Dydd sefydliad D. R. oedd Tachwedd 5, 1807, ac heblaw Mr. Philips, yr oedd yn bresennol yn yr urddiad Mr. Evan Evans, James David, a William Thomas. A oes rhyw wybodaeth ychwanegol am y personau hyn?

CYFARCH Y BRODYR.

Yr ydym yn gwneuthur rhy fach o hyn yn ein heglwysi. Gall gair caredig, wedi ei lefaru yn amserol, wneuthur mwy o les yn fynych na phregeth hir. O leiaf, mae'n sicr hyn, y gwnaiff moesgyfarchiadau cyfeillgar fwy o ddaioni na'r holl fywiog chwareu gawn ni weithiau ar yr harmonium neu'r organ pan fo'r cyfarfod yn ymollwng. I lawer nid yw y dyfyr-donc hwnw ar ol y weddi ond megys clindarddach drain dan grochan. Mae yn rhwystr i gymdeithas y saint, ac yn analluogi'r brodyr i geisio gan y dyeithriaid i ddyfod etto.

GWEITHIO YN Y BEIBL.

Pa gymmaint o sylw y mae'r Beibl yn ei gael ar eich dwylaw? Edrychwch i fyny y cyfeiriadau a ganlyn. Dewiswch un. Darllenwch ef yn ofalus trwyddo, ac yna detholwch un ymadrodd byr allan o hono, gan adael heibio bob peth anmherthynasol. Ysgrifenwch hwnw mewn copi, a thrysorwch ef yn eich cof: Genesis xvii. 1—8, Exodus xx. 1—12, Leviticus xix. 1—10, Deuteronomium vi. 1—6, Joshua xxiii. 6—11, 1 Breninoedd ii. 1—4, 1 Cronicl xvi. 8—17, Psalmau xxxiv. 9—16, xxxvii. 1—9, Diarebion iv. 1—13, xxvii.

1—11, Pregethwr xi. 6—10, Esaiah i. 10—20, Jeremiah vii. 1—7, ix. 23—24, Ezeciel xviii. 29-32, Sephaniah ii. 1—3, Amos v. 4—15.

CYSUR CREFYDD.

Felly, nid yn unig y mae cysur yn ngwyneb tori cyssylltiadau ar y ddaear gan angeu, ond yr wyf yn dywedyd wrthych, fy mod, ar ol dwys ystyriaeth o'r pwnc hwn o gysuro galarwyr, yn ystod pymtheg mlynedd ar hugain fy ngweinidogaeth, wedi cael fy moddloni fwyfwy, flwyddyn ar ol blwyddyn, mai y truenusaf o ddynion ydym ni, os yn y byd hwn yn unig y gobeithiwn. Ac yr wyf yn dywedyd wrthych yn wirioneddol, pe byddwn yn cael fy argyhoeddi yfory mai ffug yw y cwbl, ac nad oes dim bywyd hwnt i'r bedd, mi seliwn fy ngenau â saith sêl y Datguddiad, nas gall neb eu hagor, cyn y sisialwn wrth neb y gyfrinach euog. Yn y byd hwn o bechod, mae yr hwn sydd yn cymmeryd ymaith obaith y nefoedd yn cymmeryd ymaith gysur y rhai sydd yn galaru.

HENRY WARD BEECHER.

GREDDF.

Y MAE gan bob creadur ei reddf yn gystal a'i reswm, ac nad pa gymmaint bynag y byddo eu cyfartaledd yn amrywio yn y gwahanol rywogaethau, ymddengys yn anmhossibl i wadu'r ffaith, fod rhyw gymmaint o'r enaid Dwyfol yn yr iselaf yn gystal a'r uchelaf o bethau crëedig. Pan fo'r haul yn dysgleirio'n wresog ac yn fwyn, a phan ddaw'r wenol yn ol ar adenydd diwyro, sicr yw na ŵyr at beth mae'n dod; nid yw rheswm na dychymyg wedi darlunio iddi brydferthwch ein Gwanwyn Gogleddol: fe'i llywodraethir yn hollol gan gynhyrfiad Dwyfol.

Perthyna y neillduolrwydd hwn i reddf—y mae a fyno a'r pethau hyny sydd yn angenrheidiol i ddyogelu bywyd yr unigolyn neu y rhywogaeth. Mae yn fwy perffaith a mwy disymwth yn ei weithrediad nag yw rheswm, ac yn rhagori yn mhell ar ffrwyth profiad, fel y mae yn cael ei ddangos yn y cof.

Pan gymmerir y gotiar fach o'i nyth, hyd y nod pan newydd ddyfod allan o'r ŵy lle'r oedd wedi ei chau i fyny, a phan adewir iddi ddianc i'r dwfr, yr hwn nid yw erioed wedi ei weled nac wedi clywed am dano, mae'n twcio dan y dwfr ac yn ymguddio oddiwrth y gelyn mor effeithiol ag y gallai'r hen aderyn wneuthur.

Pan fyddo'r cornicyll diwrnod oed yn gweled dyn yn ymnesu, y mae yn gorwedd mor llonydd ag un o'r cerryg ar y maes; ond os

daw ci heibio, mae'n ffoi am le i ymguddio. Pwy sydd yn dywedyd wrth y cornicyll mai llygad y dyn a thrwyn y ci sydd yn beryglus?

Pan fo gwenynen y mur (*mason-bee*) yn adeiladu ei bwthyn o laid ar draws rhyw hen wal, ac yn ei stwffio'n llawn o lindys gwyrddion bach, y rhai y mae yn gyntaf yn eu darostwng i gyflwr o farweidd-dra, fel ag i'w rhwystro i ddadfeilion eu i waethygu, wedi hyny mae yn dodwy ei hwyau arnynt ac yn selio'r nyth i fyny. Pwy ddy-wedodd wrthi y byddai i'r wyau hyn ddeori ar fageiod fyddai yn gofyn y bwyd hwn cyn y gallai dyfu i fod yn wenynen y mur fel ei hunan?

Y mae math o goryn i'w gael sydd yn twrio tyllau hirion yn y pridd, ac yn eu cau i fyny gyda math o *drap door*, ac iddo golyn celfydd iawn, y tu allan i'r hwn a guddir ganddo a thameidiau bychain o borfa, nes ei wneyd bron yn anweledig yn nghanol y gwelltglas o amgylch. Pa reswm Dwyfol a'i cyfarwyddodd i ddy-feisio cynllun mor gywrain?

Gellid ychwanegu enghreifftiau dibendraw, y rhai a esponid genym fel enghreifftiau o reddf. Ac etto, nid yw hyny yn esponio dim. Beth yw greddf. O ba le y daw? Sut y gweithredir mewn dull sydd braidd yn anffaeledig. Tybia rhai athronwyr fod y reddf yn cael ei hetifeddu. Sut mae ŵy y coryn bychan yn trosglwyddo y wybodaeth ryfeddol ac arwyddocaol hon? Sut mae profiad cenedl-aethau o gotieir yn cael ei drosglwyddo i'r ŵy, fel ag i alluogi yr aderyn bychan i gyflawni y peth iawn ar y funyd iawn? . . . Yr oll a wyddom yw, fod yr holl fyd yn fyw gan ryw yspryd nas medrwn ei amgyffred; ac nid ydym ond yn cyffesu ein hanwybodaeth wrth ddefnyddio y term arferol.

Yr hyn a wyddom yw hyn, nad oes un o'r greddfau amrywiol a rhyfeddol nad oes iddi ei phwrpas pennodol, ac fod y pwrpas hwnw, fel rheol ac yn y cyffredin, yn anffaeledig yn cael ei sicrhau.

Yn un ffordd, gan hyny, y mae greddf, yr hyn y mae yn rhaid ini ei enwi o ddiffyg gwell, yn offeryn mwy perffaith nag yw rheswm. Metha rheswm yn fynych, camsynia ei delerau, a thyn gasgliadau cyfeiliornus. Anfynych y metha greddf, a pho iselaf fo rhywogaeth y reddf, mwyaf perffaith fydd ei gweithrediad.

JOHN DENDY.

ANERCH AT ORTHRYMWYR.

GWRANDEWCH yn rhodd, freninoedd byd!
Ai lladd o'r bron sydd yn eich bryd?
  Cyn gorphen hyn o waith
  Rhaid myn'd dros wledydd maith,
A gosod eu dinasoedd fflwch
Yn wael garneddau yn y llwch.

Mae'r cyfan fyd mewn cryd a braw,
Yn ofn i gyd rhag llid eich llaw,
Yr hyn, os enyn wna,
Fel blin uffernol bla,
Bydd gwae ac ochain hyd y ne'
Pan gwympir nifer llawer lle.

Och! flin elynion creulon cry',
Ai meibion dynion ydych chwi,
Neu ryw ellyllon drwg
O'r fagddu dân a mwg,
A ddaeth yn lluoedd hyll eu lliw
I lwyr anrheithio dynolryw.

IOLO MORGANWG *a'i cânt*, 1798.

Y mae y gân uchod genyf mewn llawysgrif, a rhag iddi fyned ar ddisperod, dyma hi er cof a chadw.—*Gwernyfed.*

ACHUB Y DYN DIWEDDAF.

Y MAE hanesyn cynhyrfus yn cael ei adrodd yn newyddiaduron diweddar yr Almaen—hanesyn o'r môr—am ddyn gwrol nad oedd yn prisio ei fywyd yn ngwyneb dyledswydd. Un boreu stormus deffrowyd trigolion pentref bychan yn Schleswig-Holstein gan swn saethu yn nghyfeiriad y môr. Wedi brysio at y traeth, sylwyd fod llong wedi ymddryllio ar y graig tua milldir oddi yno. Gwelid y criw yn y *rigging*. Gyrwyd y bywydfad allan, ond yr oedd Harro y blaenor yn absennol.

Aeth wyth o ddynion allan, gan rwyfo at y wrec. Cafwyd y criw i'r bywydfad oll oddigerth un, yr hwn oedd megys wedi ymgylymu yn uchel ar y mast. Yr oedd wedi hanner rewi; a chan fod y storm yn ymgynddeiriogi, a'r bywydfad eisoes yn rhy lawn, penderfynwyd nas gellid aros i'w gymmeryd i ffwrdd. Pan ddychwelodd y bywydfad gyda'i lwyth, yr oedd Harro yn bresennol. Gofynodd os oedd pawb wedi eu hachub. Atebwyd fod pawb oddigerth un—fod un ar ol.

"Mi af fi i'w nol," meddai Harro. "Pwy aiff gyda fi?"

Ar y cyntaf petrusai pawb, gan ddywedyd ei bod yn anmhossibl. Heblaw, yr oeddynt yn sicr ei bod yn rhy ddiweddar, gan nas gallent groesi'r môr etto mewn pryd.

"Os felly, mi af fy hunan," meddai Harro, gan neidio i'r bywydfad. Ar y funyd dyna ei fam yn rhedeg i lawr, ac yn begian arno beidio mentro yn ngwyneb y rhyferthwy ofnadwy, ac yn adgofio iddo fod ei dad a'i frawd Huwi eisoes wedi boddi. Huwi oedd y

brawd ieuengaf, am yr hwn nid oeddynt wedi clywed gair am amryw flynyddoedd, ac felly, credent ei fod wedi marw.

Taer fegianai ei fam arno gan ddywedyd, "Er mwyn y cariad sy genych tuag ataf fi, peidiwch myned!"

"Ond beth am y dyn ar y mast—y dyn ar y mast?" ebai Harro mewn llais cynhyrfus. "A ydych yn sicr nad oes ganddo ef fam i alaru ei farwolaeth?"

Ni ddywedodd ei fam air yn ychwaneg, a darfu i'w mab gyda phedwar dyn ereill gychwyn allan am y wrec, yr hwn oedd erbyn hyn bron wedi myned dan y dwfr. Yr oedd y tonau mor ffyrnig fel yr oedd braidd yn anmhossibl myned yn agos. O'r diwedd, cyrhaeddwyd y wrec, a dringodd Harro'r mast, a dygodd y dyn oedd bron wedi hanner rewi i lawr. Gosodwyd ef ar waelod y bywydfad. Ymblygodd Harro drosto, ac arosodd felly yn y sefyllfa hono nes oedd y bad mor agos i'r lan fel y gellid clywed ei lais. Ar hyny, hofianodd ei gap, a gwaedodd,

"Dywedwch wrth mam ein bod wedi achub Huwi!"

C. F.

Manion ac Hanesion.

TOMOS GLYN COTHI.—Denfyn Gwernyfed i ni yr hyn a ganlyn, yr hwn a gymmerwyd ganddo o rifyn Mawrth, 1833, o'r *Gwladgarwr*, tud. 96. Carwn glywed a ydyw y cyfeiriad at y gelfyddyd, a chyssylltiad Mr. Evans â hi hyd derfyn ei oes, yn wir:—"Yn ddiweddar, yn Aberdar, yn Swydd Forganwg, Mr. T. Evans, y gweinidog Cymreig cyntaf yn mhlith yr Undodiaid, a sylfaenwr y rhan fwyaf o'u cynnulleidfaoedd hwynt yn y Deheudir. Yr oedd efe yn 68 oed; ac hyd o fewn ychydig wythnosau i'w farwolaeth, yn dylyn y gelfyddyd o wau gwlaneni."

Y LLYFR TONAU NEWYDD.—Yn fy nodyn am y llyfr hwn yn y rhifyn diweddaf, feallai y dylaswn fod wedi dweyd, er y credaf fod hyny yn hollol ddealledig, fod croesaw i bob un a ewyllysio hyny, weled y llyfr, a'i fesur, a'i bwyso. Mae cryn lawer o hono wedi ei argraffu, ond y rhan argraffedig yn nghyd a'r llawysgrif a ddangosir gyda phob parodrwydd, ond i ni gael ar ddeall fod rhyw un neu ryw rai yn dymuno ei weled. Gan fod yr ammodau wedi eu derbyn mor unfrydol gan ein heglwysi, teimlwn mai afreidiol oedd nodi yr hyn a ystyriwn oedd yn cael ei ganiatau yn barod.—*J. Hathren Davies.*

Marwgofion.

Ebrill 16, yn 71 mlwydd oed, Mrs. Margaret Evans, Llysfaenuchaf, Llanwnen, Ceredigion. Y Mercher canlynol, claddwyd ei gweddillion marwol yn medd ei brawd Josiah, yn Mynwent Eglwys Llanwenog, yn unol a'i dymun-

iad, a chyflawnwyd y gwasanaeth arferol yn y ty gan y Parch. J. Davies, Alltplaca. Yr oedd yr angladd yn un o'r mwyaf a welwyd yn y gymmydogaeth er's llawer amser, yn arwydd o'r parch a deimlid tuag ati ar gyfrif ei haml rinweddau. Nodwedd arbenig ei bywyd oedd ei thymher dangnefeddus. Pa beth bynag yr ystormydd yn y byd oddiallan, yr oedd yna dawelwch hyfryd yn y dyn oddifewn; a buasai meddiannu yr yspryd hwn yn gaffaeliad gwerthfawr i bawb o honom; canys "Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, canys hwy a elwir yn blant i Dduw." Gadawodd Mrs. Evans, i alaru'n ddwys ar ei hol, ddau fab, dwy ferch, tri brawd, a llu o geraint a chyfeillion. Na fydded iddynt alaru'n annghymmedrol, canys y Tad, yr hwn a'i rhoes, a'i cymmerodd drachefn ato'i Hun, i well gwlad, a gwell cymdeithas. Y mae ein colled ni wedi troi yn elw iddi hi; ac y mae wedi marw yn llefaru wrthym yn ei bywyd, mai rhinwedd ydyw coron pob bywyd moesol. Ffarwel! anwyl chwaer, am dymhor, ni a ddeuwn ar eich ol yn fuan. Yr oedd Mrs. Evans yn fam-yn-nghyfraith i'r Parch. T. Thomas.

Ebrill 22, yn Mhontsian, bu farw Hannah Jones, a adnabyddid yn gyffredin fel hen forwyn teulu Tomosiaid y Siop, yn 52 oed. Y dydd Gwener canlynol, claddwyd ei gweddillion marwol yn Nghladdfa Newydd y Llwyn, pan y gwasanaethwyd gan y Parch. W. J. Davies, gweinidog y lle Bu yr ymadawedig yn aelod yn y Llwyn Gadawodd fam oedranus, mab, chwiorydd, a brodyr, i alaru ar ei hol. Heddwch i'w llwch.

Ebrill 22, Mary Jones, anwyl briod Joseph Jones, Llwynfedw, Cellan, ger Llanbedr, yn 65 mlwydd oed. Ar ol blynyddoedd o gystudd, a gwaeledd mawr, daeth y wys adref o'r diwedd yn dra sydyn, ac hunodd yn dawel yn yr angeu ar y dydd uchod. Er mai Duw'r cariad sydd yn dal awenau pob llywodraeth, mae dyn, pan yn ceisio esponio y paham a'r pa fodd yn ei lywodraeth, yn aml yn y tywyllwch, a'r peth doethaf ar yr adegau hyn yw ceisio tewi, myn'd yn fud gyda'r Salmydd, a gadael i Dduw esponio ei Hun yn ei amser ei Hun, gan gredu y try Efe y nos yn ddydd, a cheir gweled y pryd hwnw fod pob peth melus a chwerw wedi bod yn cydweithio er daloni i'r rhai sydd yn caru Duw. Ar gyfrif ei hyspryd siriol a llawen, a'i chyd-ymdeimlad byw, a'i gwasanaeth parod, yr oedd yr ymadawedig yn un a hoffid, ac o ganlyniad, yn un ag iddi air da gan ei chydnabod yn gyffredin, ac yn ei chartref, yr oedd yn un ag oedd yn adeiladu ei thy, ac yn goron i'w gwr, ac yn fam dyner a gofalus, a llawn o ymysgaroedd cariad. Bu'n hynod amyneddgar a dirwgnach yn ei chystudd, a gweinyddwyd arni ddydd a nos mor dyner a gofalus, a diflino ag y medrai braich o gnawd, a chariad priod, ac unig ferch, byth wneyd, a sicr yw na chyll un o honynt ei wobr, ac nad yw eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd. Yr oedd yn aelod o Eglwys Caeronen, ac yn aelod gweithgar ac ymroddgar o honi, ac felly yr oedd yn llawenydd ganddi fyned i Dy'r Arglwydd, a phan yn ei gallu, anaml y byddai ei lle'n wag yn y capel, a'r rhan o'r addoliad cyhoeddus oedd yn gorphwys arni heb ei gyflawni. Gadawodd o berthynasau agos i alaru ar ei hol briod, mab a merch, a brawd a chwaer. Claddwyd yr hyn oedd farwol o honi yn Mynwent Capel Caeronen, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. D. Evans, Cribyn.

Mai 3, Jane Lloyd, baban bychan Daniel a Gwenllian Lloyd, Coedmoreuchaf, Pencarreg, ger Llanbedr, yn bythefnos oed. Claddwyd gweddillion y teichan yn Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y ty gan weinidog Caeronen, ac yn y Llan gan yr offeiriad.

Mai 3, yn 59 oed, John Watkins, 8, Green Fach, Aberdar. Claddwyd yn y *Cemetery*, R.J.J. yn gwasanaethu.

Mai 20, yn Meirion Street, Aberdar, Mary, gweddw David Rees, a merch Rees Price, yn 62 oed. Treuliodd ei bywyd yn ddiwyd a gweithgar hyd nes y goddiweddwyd hi gan y gewynwst, yr hwn a'i hanalluogodd yn llwyr am ddeg neu ddeuddeg mlynedd i ddylyn fawr ar oruchwylion bywyd, ac yn raddol a'i dygodd i'w therfyn Bu'n aelod o'r Hen Dy Cwrdd er yn ieuanc Gwasanaethwyd yn y ty ddydd yr angladd gan R.J.J. a'r Parch. J. D. Rees, Salem (A). Claddwyd yn Mynwent Plwyf Penderyn. Mae wedi gadael merch ar ei hol, yr hon a fu yn dyner iawn o honi yn ystod ei chystudd maith, a mab.